Hawdd ei Ddeall

# Strategaeth Ryngwladol

## Celfyddydau a Llesiant yng Nghymru a'r Byd



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gyngor Celfyddydau Cymru – Fframwaith Strategaeth Ryngwladol Ddrafft 2024-2034**'.

**Mawrth 2025**


wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 23**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Website:** wai.org.uk/wales-arts-international

**Email:** info@wai.org.uk

**Phone:** +44 (0) 2920 441 300

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Beth sydd yn y cynllun yma** ........ **4**

**Ein nodau** ........ **9**


Llesiant ........ 13

Nodau eraill ........ 15

**Canlyniadau** ........ **20**

**Geiriau anodd** ........ **23**

# Beth sydd yn y cynllun yma




Dyma ein **strategaeth ryngwladol**. Dyma gynllun ar gyfer y gwaith fyddwn ni yn ei wneud.




Mae'r cynllun yma ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.



Mae'n ganllaw i waith **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn **rhyngwladol** – ar draws y byd.

Mae'n cael ei arwain gan **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (WAI)**.

Mae tri peth pwysig y mae'r Cynllun yn anelu i'w wneud:



- Cefnogi datblygu'r celfyddydau yng Nghymru drwy weithio gyda gwledydd eraill.



- Cynyddu ein perthynas â gwledydd eraill.



- Gwneud yn siŵr bod artistiaid **amrywiol** yn gallu cymryd rhan yn ein gwaith mewn gwledydd eraill.

> Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol leoedd, mae ganddyn nhw wahanol anghenion a syniadau.



Mae **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru** yn cefnogi'r celfyddydau.



Rydyn ni'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth. A mynd i ddigwyddiadau perthnasol.



Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda sefydliadau celfyddydol eraill yng Nghymru ac ar draws y DU.



Rydyn ni'n mwynhau gweithio gydag eraill. Rydyn ni'n gallu rhannu beth rydyn ni'n credu ynddo i wneud mwy. Rydyn ni'n galw hyn yn ddull Tîm Cymru.



Rydyn ni hefyd eisiau i'r celfyddydau fod yn lle sy'n deg ac yn gyfartal.



Mae'n bwysig i ni barchu pawb a bod yn gyfrifol am y gwaith rydyn ni'n ei wneud.

Mae yna ddeddfau mae'n rhaid i ni eu dilyn i wneud yn siŵr bod sefydliadau fel ni yn meddwl am bethau fel:



- Yr amgylchedd



- Trin pobl yn deg ac yn gyfartal




- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig



- Sut rydyn ni'n gwario ein harian



- Llesiant.



Oherwydd deddfau fel hyn, rydyn ni wedi llunio'r term **Llesiant Diwylliannol**.



Dyma pryd mae pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol sy'n eu helpu i deimlo eu bod yn perthyn. Maen nhw'n dda i'w hiechyd a'u hapusrwydd.



Mae hyn yn meddwl bod y celfyddydau yn bwysig iawn i gymaint o feysydd mewn bywyd.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg yng Nghymru ac o gwmpas y byd. Dyma beth sydd yn arwain ein gwaith.



Mae iaith a diwylliant Cymru yn bwysig i ni. Rydyn ni eisiau helpu drwy'r celfyddydau, fel bod mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg.

# Ein nodau




Mae gan y cynllun yma dri prif nod. Rydyn ni wedi eu rhestru yma gyda rhai o'r gweithgareddau fyddwn ni yn eu gwneud i'w cyflawni:



**1. Gwella cyfleoedd i artistiaid sy'n byw yng Nghymru i weithio dramor. Ac i wneud hynny'n deg.**


**Beth fyddwn ni yn ei wneud:**




- Darparu gwybodaeth a chyngor



- Darparu cyllid a grantiau




- Digwyddiadau



- Hyrwyddo gweithio gyda'n gilydd





## 2. Cefnogi celfyddydau a diwylliant yng Nghymru a thramor mewn ffordd sy'n deg i bobl a'r blaned.

**Beth fyddwn ni yn ei wneud:**



- Gweithio gyda gwledydd eraill yn dda.




- Defnyddio gwasanaethau ar-lein i hyrwyddo Cymru.



- Siarad am beth sy'n bwysig i ni.



## 3. Croesawu a pharchu pobl a diwylliannau o wledydd eraill.

**Beth fyddwn ni yn ei wneud:**



- Cefnogaeth i artistiaid a chymunedau **amrywiol**.



- Cefnogi gwyliau, lleoliadau ac orielau i roi gwybodaeth berthnasol.



- Gweithio gyda sefydliadau eraill fel y **Genedl Noddfa**.




- Gweithio gyda phobl o gwmpas y byd sydd â gwerthoedd tebyg am ddiwylliant ac iaith.

# Llesiant




Rydyn ni wedi gwneud canllaw i'n helpu i edrych ar effaith ein gwaith. Mae'n cynnwys 7 **nod llesiant**.




Rydyn ni eisiau meddwl am y nodau yma, a'u cyflawni, yn ein holl waith.

Dyma nhw:




1. **Nod mawr** – Cymru i fod yn llawn gweithgareddau diwylliannol a defnyddio'r Gymraeg.



2. Cymru gyfrifol – rydyn ni'n gofalu am yr amgylchedd.



3. Cymru’n llwyddo yn beth mae’n ei wneud.



4. Cymru yn lle cryf.




5. Cymru yn lle iachach.



6. Cymru yn lle mwy cyfartal.



7. Mae cymunedau’n gweithio gyda’i gilydd.

# Nodau eraill

## Creadigrwydd



- Mae celf yn ein helpu i gysylltu a deall ein gilydd a'r byd.



- Mae ein gwaith yn cefnogi artistiaid yng Nghymru, yn lleol ac yn y byd.



- Rydyn ni'n helpu artistiaid a busnesau i dyfu drwy:
  - cydweithio
  - gyda chyllid.




- Rydyn ni'n cefnogi ieithoedd eraill ac yn parchu diwylliannau a chymunedau eraill.

## Cydraddoldeb a chymryd rhan



- Mae’r celfyddydau yng Nghymru yn adlewyrchu bywydau pob person a chymuned.



- Rydyn ni eisiau i’n gwaith ysbrydoli mwy o bobl a chymunedau. Rydyn ni eisiau i bawb gymryd rhan a chael eu trin yn deg.



- Fyddwn ni ddim yn goddef pobl yn cael eu trin yn annheg.



- Mae ein gwaith yn cefnogi ac yn parchu ieithoedd a diwylliannau **amrywiol**.



- Rydyn ni’n gweithio gyda sefydliadau fel **Cenedl Noddfa** a **Celfyddydau Anabledd Cymru**.

## Cymraeg



- Fe fyddwn ni yn rhannu ein gwybodaeth o siarad dwy iaith a'r diwylliant Cymraeg gyda gwledydd eraill.



- Mae ein rhaglen o'r enw **Gwrando** yn cefnogi artistiaid i wrando a dysgu gan **bobl Frodorol** ar draws y byd. Pobl sy'n byw ar eu tir cyn i bobl ddod o rywle arall ydy **pobl Frodorol**.



- Rydyn ni'n credu ei bod ni i gyd yn gallu dysgu oddi wrth ein gilydd.



# Cyfiawnder hinsawdd



Mae **cyfiawnder hinsawdd** yn meddwl gofalu am y blaned a'r amgylchedd. Ond hefyd, mewn ffordd sy'n deg. Mae rhai gwledydd yn cael mwy o effaith ar gynhesu byd-eang nag eraill.



Mae angen i'n gwaith ddangos ein bod yn credu hyn ac yn gweithio tuag at ei gyflawni.



Fe fyddwn ni yn cefnogi artistiaid a sefydliadau i wneud dewisiadau a chynlluniau da sy'n cefnogi'r amgylchedd.

## Cefnogi talent




Rydyn ni'n cefnogi artistiaid i ddatblygu eu sgiliau a'u potensial.



Mae artistiaid yn cael eu talu'n deg a'u trin yn deg.

## Newid



Rydyn ni'n dod o hyd i gyfleoedd mewn gwledydd eraill. Rydyn ni'n cefnogi artistiaid i gymryd rhan mewn cyfleoedd yng Nghymru a gwledydd eraill.



Maen nhw'n cael cyfle i ddweud eu dweud ar y celfyddydau a sut i weithio'n dda.



Mae'r gwaith maen nhw'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth i Gymru.

# Canlyniadau

Rydyn ni eisiau i'r holl nodau yma wella pethau. Rydyn ni'n galw'r rhain yn **ganlyniadau**. Dyma'r canlyniadau rydyn ni eisiau eu gweld:



- Mae cynulleidfaoedd yn profi celfyddydau, diwylliant ac iaith **amrywiol** yng Nghymru.



- Mae'r sector celfyddydau yn deg i bobl a'r blaned.



- Rydyn ni'n creu gwaith teg i artistiaid.




- Mae pobl eisiau bod yn rhan o'r **newid hinsawdd** oherwydd ein gwaith.



Mae **newid hinsawdd** yn meddwl newid tymheredd ac amodau'r ddaear. Mae'n cael ei achosi gan bethau fel olew a nwy.



- Mae'r celfyddydau yn gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl.



- Mae pobl yn profi pa mor **amrywiol** ydy Cymru drwy'r celfyddydau.



- Mae'r celfyddydau'n dod â chymunedau at ei gilydd.

**Fe fyddwn ni yn edrych i weld pa mor dda rydyn ni'n cyflawni'r rhain. Er enghraifft, drwy:**



- Nifer yr artistiaid sy'n gweithio mewn gwledydd eraill.



- Faint o arian mae artistiaid yn ei ennill?



- Faint o gynulleidfaoedd sy'n cael eu cyrraedd?



- Faint o ymweliadau rydyn ni'n eu cael i Gymru gan artistiaid mewn gwledydd eraill..

# Geiriau anodd

## Amrywiol

Mae hyn yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol leoedd, mae ganddyn nhw wahanol anghenion a syniadau.

## Newid hinsawdd

Mae newid hinsawdd yn meddwl newid tymheredd ac amodau’r ddaear. Mae’n cael ei achosi gan bethau fel olew a nwy.